



Pontyclun – 175 o flynyddoedd i dref

Cyngor Cymuned
PONTYCLUN
Community Council



CYNNWYS

RHAGAIR	4
RHAGARWEINIAD	6
PAM DYLA I PONTYCLUN FOD YN DREF?	7
COSTAU A MANTEISION	8
PONTYCLUN, LLE I BAWB	9
MAE EICH SYLWADAU YN BWYSIG	10
Atodiadau	11
Atodiad 1 - 175 MLYNEDD o bontyclun	12
ATODIAD 2 - CYMYSGEDD ECONOMAIDD PONTYCLUN	14
Atodiad 3 - FFIN ARFAETHEDIG TREF PONTYCLUN	1
Atodiad 4 - CYMHARU Â THREFI ERAILL	2
CWESTIYNAU CYFFREDIN	3
CYSYLLTWCH Â NI	7



RHAGAIR

Rydym wedi ymrwymo i gefnogi Pont-y-clun i fod yn lle gwych i weithio, byw a chwarae ynddo.

Ein cynnig yw rhoi 'statws tref' i Bont-y-clun. Rydym am wneud i hyn ddigwydd. Ac mae gennym gefnogaeth ddwybleidiol ar y cyngor i wireddu hyn. Rydym am glywed eich barn ar ein cynnig.

Credwn fod y busnesau ym Mhont-y-clun o dan anfantais annheg o gymharu â busnesau tebyg mewn trefi cyfagos fel Llantrisant, Tonysguboriau a'r Bont-faen. Y rheswm am hyn? Mae'r lleoedd hyn wedi'u dynodi'n 'Drefi' yn gyfreithiol, felly mae eu strydoedd mawr a'u busnesau yn cael mwy o sylw gan eu Cyngor Bwrdeistref ac yn gymwys i gael mwy o gymorth grant na phentrefi.

Cafodd y syniad hwn ei awgrymu gyntaf ychydig cyn ac yn ystod y Pandemig: roedd llawer o fusnesau yn cael trafferth ar y stryd fawr yn union fel ein un ni ar hyd a lled y wlad. Ond roedd strydoedd mawr o faint cyfartal mewn lleoedd a oedd yn aml yn llai na Phont-y-clun yn cael mwy o gefnogaeth oherwydd eu statws fel bod o fewn tref. Mae'n swnio fel pwynt technegol yn unig. Ac y mae. Ond mae'n gwneud gwahaniaeth mawr. Y canlyniad oedd profiad llai poenus o'r pandemig i lawer o fusnesau mewn trefi cyfagos gan gynnwys Llantrisant a'r Bont-faen. Roedd llawer o berchnogion busnes yn teimlo eu bod yn cael eu hanwybyddu. Ac rydym yn cytuno â nhw. Dyma pam mae angen inni wneud i hyn ddigwydd fel y gallwn sicrhau ffyniant ein stryd fawr am flynyddoedd lawer i ddod.

Er enghraifft, ar hyn o bryd mae pedwar grant busnes a thrydydd sector yn cael eu gweinyddu gan RhCT: y Grant Twf Busnes, y Grant Cynnal a Chadw Canol Trefi, y Grant Gwella Masnachol, a'r Grant Gwella Eiddo ar Raddfa Fawr. O'r rhain, dim ond ar gyfer y Grant Twf Busnes y mae busnesau ym Mhont-y-clun yn gymwys. Gall busnesau ychydig i fyny'r ffordd yn Nhonysguboriau wneud defnydd o bob un ohonynt. Fel cyngor, credwn fod hyn yn annheg, ac rydym am newid hynny.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gefnogi busnesau, datblygu'r economi leol, annog buddsoddiad gan y sector preifat, ac adfywio ein stryd fawr. A chyda chymhwysedd ar gyfer y grantiau hyn a chyfluoedd ariannu eraill gan RhCT, fe fydd yr ymrwymiad hwn yn cael ei gryfhau.

Efallai eich bod yn pendroni: sut y bydd y cyngor yn mynd ati i gael y 'statws tref' hwn? Mae'n broses syml. Unwaith y daw'r cyfnod ymgynghori i ben ar Awst 31ain, caiff y cynnig ei ddiwygio yn

unol â sylwadau trigolion a busnesau yn ein cymuned. Ar ôl hynny, bydd y cyngor yn pleidleisio arno, ac yn amodol ar y gymeradwyaeth honno, dyna ni.

Felly, os mai dyma'r manteision, beth fydd cost hyn i'n cymuned? Yr ateb syml yw'r unig gost i'r gymuned fydd yn weinyddol wrth newid logos ac arwyddion sy'n perthyn i'r cyngor, a byddwn yn gwneud hynny dim ond pan fydd angen eu hadnewyddu er mwyn cadw costau i lawr.

Dyna ni, ni fydd yn effeithio ar gynllunio'r dyfodol nac ar braeseptau'r cyngor ac ni fydd yn newid y ffaith mai pentrefi yw Meisgyn, Brynsadler, Mwyndy, Talygarn a'r Groesfaen. Dim ond canol Pont-y-clun fydd yn cael ei ddynodi'n dref i wneud y busnesau'n gymwys ar gyfer y cymorth yr ydych yn ei haeddu.

Rydym angen eich help i hyrwyddo hyn. Mae arnom angen i chi ein helpu i ennyn cefnogaeth ar gyfer yr hyn y credwn all gael effaith gadarnhaol wirioneddol ar fywoliaeth pobl yn ein cymuned, ac i helpu i hyrwyddo'r buddion a ddaw yn sgil y statws hwn i'n stryd fawr annwyl.

Mae llawer o fusnesau a phreswylwyr yn cefnogi ein cynllun, a gobeithiwn y gwnewch chithau hefyd.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am ein cynnig neu sut y gallwch chi chwarae rhan mewn gwneud Pont-y-clun yn dref, e-bostiwch Community@pontyclun-cc.gov.wales neu ewch i adran Cwestiynau Cyffredin y ddogfen hon lle mae'n bosibl bod eich cwestiwn eisoes wedi'i ateb. Diolch i chi am gymryd yr amser i ddarllen hwn a gobeithio y cewch chi ddiwrnod bendigedig.

Cyng. Wayne Owen
Cadeirydd, Cyngor Cymuned Pont-y-clun

Cyng. Jamie Daniel
Is-Gadeirydd, Cyngor Cymuned Pont-y-clun
Cynullydd, Gweithgor Statws Tref

RHAGARWEINIAD

Mae Pont-y-clun yn dref fywiog yn ne Cymru sydd â llawer i'w gynnig i'w thrigolion ac ymwelwyr. Mae ei gyfleusterau ac adnoddau niferus yn ei wneud yn gyrchfan ddeniadol i bobl o bob oed. Mae'r cynnig hwn yn ceisio amlinellu'r rhesymau pam y dylai Pont-y-clun fod yn dref yn Rhondda Cynon Taf.

Mae gan bentref a chymuned Pont-y-clun yr holl nodweddion a chyfleusterau angenrheidiol i gael statws tref. Mae ganddi statws tref bost a rhwydwaith trafnidiaeth pwysig, yn ogystal â stryd fawr brysur, poblogaeth fawr, siopau a busnesau amrywiol, timau chwaraeon llwyddiannus, treftadaeth helaeth, a chyfleusterau cymunedol niferus; Statws Pont-y-clun fel tref fyddai'r gydnabyddiaeth sydd ei hangen arni i gefnogi'r gymuned o fewn ei ffiniau tra'n denu mewnfuddsoddiad i Sector Deheuol RhCT.

Pontyclun currently does not have town status, which could limit its ability to attract new businesses, high street funding and visitors. O ganlyniad, nid yw'r pentref yn cael ei gydnabod yn llawn am ei gyfraniadau i'r ardal a'i botensial ar gyfer twf yn y dyfodol.

Nod y cynnig hwn yw sicrhau statws tref i Bont-y-clun, a fyddai'n caniatáu iddi ddenu busnesau newydd, buddsoddiad ac ymwelwyr yn well. Byddai hyn hefyd yn cydnabod cyfraniadau'r gymuned i'r ardal ehangach ac yn darparu cyfleoedd ar gyfer twf a datblygiad.

PAM DYLAI PONTYCLUN FOD YN DREF?

Mae Pont-y-clun yn bentref bywiog sy'n cynnig llawer i drigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd. Mae gan y pentref stryd fawr brysur sy'n tyfu gydag amrywiaeth o siopau a busnesau, gan ddarparu canolbwynt hanfodol i'r gymuned leol. Mae'r busnesau hyn yn cyfrannu at economi'r pentref ac yn darparu ystod o nwyddau a gwasanaethau i drigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd. Yn ogystal, mae gan y pentref orsaf reilffordd sy'n denu twristiaid a chymudwyr, gan ei wneud yn ganolbwynt trafndiaeth pwysig i'r ardal. Mae lleoliad Pont-y-clun fel prif bwynt mynediad i Gaerdydd, y Fro, Pen-y-bont ar Ogwr, Abertawe, a'r M4 hefyd yn ei gwneud yn ganolfan bwysig o weithgarwch ar gyfer y rhanbarth ehangach.

Mae gan Bont-y-clun dreftadaeth gyfoethog, gan gynnwys adeiladau hanesyddol, safleoedd o ddiddordeb archeolegol, a rôl bwysig yn y diwydiannau mwyngloddio a rheilffyrdd. Mae'r dreftadaeth hon yn destun balchder i drigolion ac mae hefyd yn atyniad i ymwelwyr sydd â diddordeb mewn hanes a diwylliant. Mae timau pêl-droed a rygbi llwyddiannus y pentref hefyd yn cyfrannu at ei hunaniaeth ac yn darparu ymdeimlad o ysbryd cymunedol.

Mae Pont-y-clun yn cynnig amrywiaeth o gyfleusterau ac adnoddau sydd o fudd i drigolion o bob oed. Mae ei hysgolion yn rhan o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, sy'n ceisio sicrhau bod myfyrwyr yn cael mynediad i gyfleusterau addysgol modern o ansawdd uchel. Mae gan Bont-y-clun hefyd ganolfan gymunedol sy'n darparu amrywiaeth o weithgareddau a gwasanaethau i drigolion, gan gynnwys meithrinfeydd, manau cynnes, a banc bwyd. Yn ogystal, mae gan Bont-y-clun nifer o glybiau chwaraeon a chyfleusterau hamdden, fel parciau, llwybrau troed, a chlwb athletaidd.

Mae gan yr ardal botensial i dyfu ymhellach, gyda thir y gellir ei ddatblygu ar gael yn y gymuned. Mae datblygiadau cyfredol ac arfaethedig yng Nghefn yr Hendy, Ely Valley Road, Mwyndy, a chwarel Meisgyn.

Ymhellach, byddai statws tref Pont-y-clun o fudd i'r rhanbarth ehangach trwy wneud yr ardal yn fwy deniadol i ymwelwyr a buddsoddwyr a darparu buddsoddiad pellach a phobl i ymweld ag ardal gyfagos Llantrisant/Tonysguboriau, sef y dref strategol allweddol yn Strategaeth Sector y De. Yn ogystal, byddai cadarnhau safle Pont-y-clun fel rhan o RhCT dros ffiniau cynyddol Caerdydd yn dod â manteision pellach i drigolion.

Darperir gwybodaeth am hanes yr ardal, ei heconomi a chymariaethau poblogaeth gyda threfi lleol eraill yn yr atodiadau i'r cynnig hwn.

COSTAU A MANTEISION

Costau:

Byddai'r gost o roi statws tref i Bont-y-clun yn weinyddol yn unig, yn bennaf i'r Cyngor Cymuned.

Byddai'r Cyngor yn newid ei enw i fod yn Gyngor Tref Pont-y-clun a thros amser byddai hyn yn golygu newid yr holl arwyddion, logos ac ati. Hyd yn oed gyda newid enw, gellir lleihau costau, gyda'r Cyngor yn cynnig gwneud newidiadau i arwyddion presennol dim ond pan fydd angen eu hadnewyddu.

Byddai manteision sylweddol i'r gymuned.

Manteision:

Byddai statws tref yn rhoi cydnabyddiaeth swyddogol i gyfleusterau, gwasanaethau a photensial twf presennol Pont-y-clun. Byddai'n caniatáu i Bont-y-clun gael mynediad at adnoddau a chyfleoedd ariannu newydd, denu busnesau a buddsoddiad newydd, a hyrwyddo Pont-y-clun yn well i ymwelwyr..

Byddai rhoi statws tref i Bont-y-clun yn darparu manteision niferus i'r dref a'r gymuned ehangach:-

1. Byddai'n rhoi cydnabyddiaeth swyddogol i gyfleusterau a gwasanaethau presennol Pont-y-clun, a'r potensial am dwf economaidd.
2. Byddai'r gydnabyddiaeth hon yn denu busnesau a buddsoddiad newydd, a fyddai'n creu swyddi ac yn cefnogi twf economaidd yn yr ardal.
3. Byddai statws tref yn rhoi mynediad i Gyngor Tref Pont-y-clun at adnoddau newydd a chyfleoedd ariannu, a fyddai'n caniatáu iddo wella ac ehangu ei wasanaethau a'i gyfleusterau.
4. Mae CBS RhCT yn ei gynlluniau yn gwneud darpariaeth arbennig ar gyfer canol trefi a thrwy ddod yn dref gallem hefyd fod yn gymwys ar gyfer yr ystyriaeth ychwanegol hon. Er enghraifft, mae RhCT yn edrych ar osod WiFi am ddim yn ei holl Ganol Trefi. Pe bai Pont-y-clun yn dod yn dref gallem gael ein hystyried ar gyfer hyn.
5. Byddai statws tref hefyd yn agor cyfleoedd ariannu ychwanegol i'n busnesau lleol, sy'n anghymwys ar hyn o bryd oherwydd ein bod yn bentref.
6. Byddai statws tref hefyd o fudd uniongyrchol i drigolion Pont-y-clun drwy wella ansawdd bywyd yn y pentref. Byddai'r buddsoddiad a'r adnoddau cynyddol yn caniatáu datblygu cyfleusterau a rhaglenni cymunedol newydd, megis parciau a manau hamdden gwell. Byddai hyn o fudd i bobl o bob oed ac yn annog teimlad o ysbryd cymunedol.
7. Byddai rhoi statws tref i Bont-y-clun o fudd i'r gymuned ehangach drwy gydnabod cyfraniadau Pont-y-clun i'r rhanbarth. Byddai'r gydnabyddiaeth hon yn helpu i hyrwyddo Pont-y-clun fel cyrchfan i ymwelwyr, a fyddai o fudd i fusnesau lleol a'r economi ehangach. Yn ogystal, byddai'n helpu i gryfhau'r ymdeimlad o gymuned a'r cysylltiad rhwng Pont-y-clun a'r trefi a'r dinasoedd cyfagos.

PONTYCLUN, LLE I BAWB

I grynhoi, credwn y byddai rhoi statws tref i Bont-y-clun yn ased i Rondda Cynon Taf. Mae gan Bont-y-clun lawer i'w gynnig, gan gynnwys ei gyfleusterau, ei wasanaethau, a'i photensial ar gyfer twf. Byddai'r cynnig i roi statws tref i Bont-y-clun nid yn unig o fudd i'r pentref ei hun, ond hefyd yn cefnogi nodau datblygu economaidd a chymdeithasol ehangach Strategaeth Sector y De. Mae cynghorwyr wedi trafod pwysigrwydd amlygu sut y byddai statws tref Pont-y-clun yn ategu datblygiad Llantrisant/Talbot Green fel y dref strategaeth allweddol yn yr ardal, yn hytrach na thynnu oddi arni. Yn wir, gallai statws tref Pont-y-clun wneud yr ardal gyfan yn fwy deniadol, gan ennill buddsoddiad pellach a chynyddu nifer yr ymwelwyr i'r Sector Deheuol.

Un wrthddadl bosibl yn erbyn statws tref Pont-y-clun yw'r diffyg tir y gellir ei ddatblygu. Fodd bynnag, fel yr amlygwyd yn flaenorol, mae'r datblygiadau a'r datblygiadau arfaethedig ym Mhont-y-clun, gan gynnwys y rhai ar Gefn yr Hendy a Ffordd Cwm Elái, yn profi bod lle i dyfu ac ehangu o hyd. Ar ben hynny, byddai statws tref Pont-y-clun yn cadarnhau ei safle fel rhan annatod o Rondda Cynon Taf, yn wahanol i ffiniau Caerdydd sy'n ehangu o hyd. Trwy hyrwyddo hunaniaeth a chymeriad unigryw Pont-y-clun, byddai statws tref yn gwella ymhellach yr ymdeimlad o gymuned a pherthyn i'w thrigolion ac yn cynyddu amlygrwydd a phroffil y dref o fewn y rhanbarth ehangach.

MAE EICH SYLWADAU YN BWYSIG

Mae'r Cyngor yn croesawu barn ein trigolion a'n busnesau, a byddem yn falch pe baech yn cysylltu â ni i drafod unrhyw agwedd o'r cynigion hyn.

Gallwch wneud hyn mewn sawl ffordd: -

E-bostiwch y Cyngor - Community@pontyclun-cc.gov.wales

Siaradwch neu ysgrifennwch at eich Cynghorydd lleol

ATODIADAU

ATODIAD 1 - 175 MLYNEDD O BONTYCLUN

Mae'r enw Pont-y-clun wedi bod mewn defnydd swyddogol ers 1893.

Dyfodiad y Rheilffordd bron i 175 o flynyddoedd yn ôl oedd y "glec fawr" ar gyfer creu Pont-y-clun.

Yn 1841 - 42 mae'r map o ardal Pont-y-clun/Meisgyn yn dangos dim ond 30 o ffermydd yn amrywio o 20 i 200 erw o ran maint, melin yd, ac ychydig o fythynnod bach.

Ac yna daeth y Rheilffordd.

Agorwyd rhan gyntaf rheilffordd De Cymru, rhwng Cas-gwent ac Abertawe ar 18 Mehefin 1850. Roedd yn cynnwys gorsaf o'r enw "Llantrissant for Cowbridge", yn y bôn lle mae'r orsaf fodern heddiw. Ar 2 Awst 1860 daeth hefyd yn gyffordd gyda lein newydd yn agor ar reilffordd Cwm Elái i Donyrefail.

Y mewnlifiad o weithwyr ar gyfer y diwydiant mwyn haearn a glo ar ôl hyn a newidiodd yr ardal am byth. Glofa Coedcae (a restrwyd gyntaf yn 1856) a gwaith mwyn haearn Bute (a agorodd ym mis Hydref 1852) oedd y catalydd ar gyfer twf y boblogaeth.

Denodd y diwydiannau newydd lafur o sawl rhan o Gymru a gweddill y Deyrnas Unedig, Cernyw yn arbennig. Newidiodd y ffordd o fyw o amaethyddol i ddiwydiannol. Lleihaodd cyfran y teuluoedd oedd yn defnyddio'r Gymraeg yn eu bywyd bob dydd

Erbyn 1870 roedd diwydiannau'r ardal wedi'u hehangu gyda dyfodiad Gwaith Tunplat Trelái (1872), Gwaith Pibellau a Chrochenwaith Llantrisant (cyn 1890) gwaith wagen rheilffordd (yn yr 1880au) a'r Cwmni Saerniaeth Stêm (cyn 1880) .

Arweiniodd anghenion y gweithlu at adeiladu School Street a Llantrisant Road a oedd ymhlith rhai o'r tai cynharaf yn yr ardal, ynghyd â'r Ysgol Genedlaethol a adeiladwyd yn School Street, c. 1878.

Adeiladwyd Gwestai Bute a Windsor yn y 1870au, sinema - Studt's, a agorwyd ym 1913 (ailadeiladwyd yn 1931 gan agor gyda "talkies")

Parhaodd datblygiad y dref (ac mae'n parhau hyd heddiw). Cyrhaeddodd trydan yn 1920, goleuadau stryd yn 1925; dechreuodd siopau a busnesau, ac adeiladwyd canol tref ffyniannus.

I wasanaethu anghenion mwy ysbrydol a diwylliannol ein trigolion roedd gennym Eglwysi a Chapeli, tafarndai a thai bwyta, clybiau chwaraeon, a chymdeithasau.

Yn wir, dros y blynyddoedd mae ein clybiau Pêl-droed a Rygbi wedi rhagori, ar ôl rhoi cyn-lywyddion Cymdeithas Bêl-droed Cymru ac URC a chafodd arwyddair CBDC ei "fenthg" o Bont-y-clun yn 1951.

Yn gynnar yn yr 20fed ganrif rhoddwyd (neu werthwyd) llawer o barseli o dir gan y teulu Clark i'w defnyddio fel tir ar gyfer ysgolion, parciau, a mannau hamdden. Mae llawer o'r rhain yn dal i gael eu defnyddio at y dibenion hyn 100 mlynedd yn ddiweddarach.

Mae'r pyllau a'r gweithfeydd mwyn i gyd ar gau, mae'r ffatrioedd mawr hynny o oes Fictoria wedi hen fynd heibio ond mae Pont-y-clun, yn wahanol i sawl ardal yng nghymoedd De Cymru, yn parhau i dyfu a ffynnu.

Mae gennym weithlu mwy amrywiol gyda llawer o unedau diwydiannol wedi'u lleoli yn lôn Coed Cae ac ystadau diwydiannol lleol eraill. Mae ein lleoliad yn ddelfrydol ar gyfer cymudo i Gaerdydd, y Fro ac i mewn i'r Cymoedd ac mae hyn wedi ysgogi datblygiad yn ystod diwedd yr 20fed ganrif a dechrau'r 21ain ganrif.

Dros y 30-40 mlynedd diwethaf mae llawer o stadau mawr o dai wedi'u hadeiladu o amgylch Pont-y-clun gan ddod â'i phoblogaeth i bron i 9000. Mae'r rhain yn Ynysddu; Tyla Garw, Cefn yr Hendy a hyd yn oed hen safle'r Bragdy ym Mrynsadler.

Yn wir, mae hyn yn parhau gyda 460 o dai wedi'u cymeradwyo ym mis Mawrth 2023 ar gyfer ardal Cefn yr Hendy a chais arall wedi'i gynllunio ar gyfer tua 200 o dai yn hen Chwarel Meisgyn gerllaw yn cael ei ddisgwyl yn fuan. Fodd bynnag, nid yw statws tref yn effeithio ar gynllunio, ac felly ni fydd yn golygu ehangu mwy ar ddatblygiadau o'r fath yn ein cymuned.

Gyda phen-blwydd Pont-y-clun yn 175 oed yn prysur agosáu, bydd rhoi statws i Bont-y-clun fel tref yn gydnabyddiaeth o'r cynnydd sydd ei angen arni tra'n darparu mwy o'r gefnogaeth y mae'n ei haeddu i'n cymuned. Ar ein pen-blwydd, gallwn edrych yn ôl gyda balchder ar sut mae ein cymuned wedi datblygu ac edrych ymlaen yn fawr at yr hyn a ddaw yn y blynyddoedd i ddod.

ATODIAD 2 - CYMYSGEDD ECONOMAIDD PONTYCLUN

Mae Pont-y-clun a'r cyffiniau yn gymuned fywiog sy'n tyfu. Mae ein cymysgedd economaidd a chyfleusterau cymunedol yn perfformio'n well na llawer o drefi cyfagos.

Mae gennym gysylltiadau cyfathrebu gwych, gorsaf reilffordd, mynediad hawdd i'r M4, A470 a Chaerdydd sy'n golygu bod yr ardal yn lleoliad delfrydol i lawer o fusnesau a phobl leoli eu hunain.

Mae gan brif ardal siopa Pont-y-clun dros 70 o siopau a busnesau ac mae galw mawr gan rai newydd posibl yn golygu mai anaml y bydd gennym siopau gwag heblaw tra'n cael eu hadnewyddu ar gyfer perchnogion newydd. Er enghraifft, pan gaeodd asiant tai lleol eu siop ar ddiwedd 2022, roedd perchnogion newydd i mewn erbyn y Pasg ar ôl adnewyddiad llawn.

Nid yw ein stryd fawr yn marw, mae'n dangos twf a gwelliant dros amser. Mae gennym gymysgedd amrywiol o fusnesau o Gaffis, Bwyta i siopau cyfleus ac arbenigwyr fel cigyddion, siopau anrhegion a hyd yn oed siop wllân. Fodd bynnag, er mwyn galluogi ein stryd fawr wych i gyrraedd ei llawn botensial, credwn ei bod ond yn iawn eu bod yn cael mynediad at yr ystod lawn o gymorth sydd ar gael i fusnesau tebyg ychydig i lawr y ffordd.


Mae 2 ardal o ddiwydiant ysgafn cymysg gerllaw, ym Mwyndy ac yn lôn Coed Cae, sy'n darparu cyfleoedd lleol yn ogystal â'r bobl hynny sy'n cymudo i Gaerdydd ar gyfer cyflogaeth. Mae gennym hefyd westy uchel ei barch Y Miskin Manor yn yr ardal.

Mae cyfleusterau cymunedol yn cynnwys:

- Meddygon
- Deintydd
- 2 Fferyllfa
- milfeddygon
- 3 x darparwr gofal iechyd arall (e.e. podiatrydd)
- Canolfan Gymunedol
- Clwb Rygbi
- Clwb Pêl-droed
- Cofeb rhyfel
- Sawl Cae Chwarae
- Gorsaf Dân
- Llyfrgell
- Parc
- 2 x rhandir
- 2 x eglwys
- Capel
- Gorsaf dren

ATODIAD 3 - FFIN ARFAETHEDIG TREF

PONTYCLUN



Os oes gennych unrhyw wrthwynebiadau neu sylwadau am y ffin arfaethedig hon, gweler ein manylion cyswllt isod.

ATODIAD 4 - CYMHARU Â THREFI ERAILL

Poblogaethau yn fras yn 2021 - mae rhai niferoedd yn cyfeirio at y trefi yn unig ac eraill at y Gymuned gyfan.

Name	Approx Population
Pontypridd	31k
Llantrisant	14k
Tonysguboriau	6.7k
Aberdar	37k
Treorci	7.6k
Porth	5.7k
Glynrhedynog	4k
Tonypandy	3.6k
Aberpennar	13k
Y Bontfaen	4.3k
Pontyclun	9k

Yn ôl poblogaeth gymunedol, mae Pont-y-clun yn llawer mwy na rhai trefi cyfagos gan gynnwys y Bont-faen, y Porth, Glynrhedynog, Tonypandy a Threorci. Er ein bod yn cynnig gwneud canol Pont-y-clun yn dref yn unig, byddai gan hyd yn oed yr ardal gymharol fach hon boblogaeth debyg i rai trefi ar y rhestr hon.

Byddai statws Pont-y-clun fel tref nid yn unig yn fuddugoliaeth enfawr i fusnesau lleol, ond hefyd yn gydnabyddiaeth o faint Pont-y-clun modern.

CWESTIYNAU CYFFREDIN

1. Pam ydych chi'n gwneud hyn?

Mae gan fusnesau ym Mhont-y-clun fynediad i lawer llai o gymorth ariannol gan RCT na'r rhai yn Tonysguboriau neu Lantrisant gerllaw. Rydym yn credu mewn galluogi ein busnesau i wneud y mwyaf o'u potensial eu hunain. Drwy wneud hyn, byddwn yn helpu i gyflawni'r nod hwn.

2. Beth yw'r gost i'r Cyngor/Cymuned?

Bach iawn. Ni fydd yn effeithio ar braeseptau cyngorau cymuned na threth Cyngor Rhondda Cynon Taf (nid oes gan Gyngor Cymuned Pont-y-clun unrhyw lais ar dreth Cyngor RhCT). Yr unig gost i'r gymuned fydd gweinyddol wrth newid logos ac arwyddion sy'n perthyn i'r cyngor, a byddwn yn gwneud hynny pan fydd angen eu hadnewyddu er mwyn cadw costau i lawr. O ystyried bod angen newid y pethau hyn ar sail dreigl beth bynnag, nid ydym yn credu bod y gost hon yn drech na'r budd i'n cymuned.

3. Sut bydd hyn yn effeithio arnaf fel preswlydd?

Fel preswlydd, mae hyn yn annhebygol o effeithio ar eich bywyd mewn unrhyw ffordd ac eithrio os ydych yn uniongyrchol gysylltiedig â busnes lleol.

4. Sut bydd hyn yn effeithio arnaf fel busnes?

Fel busnes lleol, bydd hyn yn ehangu'r ystod o gyfleoedd ariannu sydd ar gael i chi gan RCT, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Er enghraifft, ar hyn o bryd mae pedwar grant busnes a thrydydd sector yn cael eu gweinyddu gan RhCT: y Grant Twf Busnes, y Grant Cynnal a Chadw Canol Trefi, y Grant Gwella Masnachol, a'r Grant Gwella Eiddo ar Raddfa Fawr. O'r rhain, dim ond ar gyfer y Grant Twf Busnes y mae busnesau ym Mhont-y-clun yn gymwys. I'r gwrthwyneb, gall busnesau ychydig i fyny'r ffordd yn Nhonysguboriau wneud defnydd o bob un ohonynt. Yr ydym am unioni hyn drwy basio'r cynnig hwn.

5. Pryd fydd hyn yn digwydd?

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn rhedeg o ddydd Mawrth 27 Mehefin tan ddydd Iau 31 Awst. Bydd cyfarfod gweithgor yn cael ei gynnal wedyn i ddioli drwy sylwadau'r cyhoedd a chyflwyno cynnig terfynol i'r cyngor llawn yn fuan wedyn, lle cynhelir pleidlais.

6. Pa ardaloedd yr effeithir arnynt?

Dim ond canol Pont-y-clun. Ni fydd y pentrefi cyfagos yn cael eu heffeithio. Gwnaed y penderfyniad hwn i gadw Meisgyn, Talygarn, Brynsadler, Mwyndy a Groesfaen fel pentrefi, tra'n

cadw mewn cof bod y rhan fwyaf o fusnesau o fewn Cymuned Pont-y-clun o fewn yr ardal dan ymgynghoriad i gael statws tref.

7. Beth fydd yn newid?

Os caiff y cynnig hwn ei dderbyn, yna bydd Pont-y-clun yn cael statws tref a bydd gan y busnesau arsenal mwy o gymorth ariannol. Mae'n bosibl y bydd y cyngor wedyn yn newid ei enw i adlewyrchu hyn, er na fyddai hyn yn newid ei statws fel cyngor cymuned ar gyfer Pont-y-clun a'r pentrefi cyfagos.

8. Onid oes arnoch angen siarter frenhinol neu rywbeth i'w gwneud yn dref?

Nag oes. Dim ond cynnig ar Gyngor Cymuned Pont-y-clun sydd ei angen. Rydym wedi cael cyngor ar hyn gan Lywodraeth Cymru.

9. Roeddwn i'n meddwl bod Pont-y-clun yn dref yn barod?

Nid yn gyfreithiol. Er bod asiantaethau'r Llywodraeth a sefydliadau eraill yn disgrifio Pont-y-clun fel tref yn rheolaidd (gan gynnwys Swyddfa'r Post a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol), ni roddwyd y statws cyfreithiol hwn erioed i Bont-y-clun. Felly, er mwyn cael y cymorth y maent yn ei haeddu i'r busnesau a'r stryd fawr, mae angen inni drefnu hyn cyn gynted â phosibl.

10. Rydw i'n byw ym Meisgyn/ Mwyndy/ Talygarn/ Brynsadler/ Groesfaen. Os bydd y cyngor yn newid ei enw (e.e., cyngor tref), a fyddaf yn dal i gael fy nghynrychioli ar y cyngor?

Yn hollol. Nid oes unrhyw sicrwydd y byddai'r cyngor wedyn yn newid ei enw unwaith y bydd newid yn statws cyfreithiol y 'dref' wedi digwydd. Fodd bynnag, pe bai'r cyngor yn penderfynu gwneud hynny, dim ond newid enw fyddai hynny i adlewyrchu bod Pont-y-clun yn dref. Byddai'n dal i gynnwys holl gymuned gyfreithiol bresennol Pont-y-clun.

11. Sut mae Cyngorwyr yn elwa o hyn?

Ni fydd y cyngorwyr yn elwa o hyn. Ni fydd hyn yn effeithio ar lwfansau, treuliau ac ati.

12. "Rwy'n hoffi byw mewn pentref. Sut bydd hyn yn effeithio ar hynny?"

Nid ydym ond yn bwriadu gwneud Pont-y-clun ei hun yn dref. Os ydych yn byw ym Meisgyn, Mwyndy, Talygarn, Brynsadler neu Groesfaen, byddwch yn dal i fyw mewn pentref. Mae'r map yn Atodiad 3 yn dangos ein ffin arfaethedig ar gyfer yr hyn a fyddai'n cael ei ystyried yn 'dref' Pont-y-clun.

13. Ydy hyn yn golygu y bydd Pont-y-clun yn dod yn fwy fyth?

Nac ydy. Nid yw statws tref yn effeithio o gwbl ar gynllunio, ac felly nid yw hyn yn golygu o gwbl bod unrhyw fannau gwyrdd ychwanegol mewn perygl o gael eu hadeiladu o ganlyniad. Hoffai'r

cyngor gyfleu'r cynnig hwn fel un sy'n cydnabod Pont-y-clun am yr hyn ydyw eisoes, nid yw hyn i wneud Pont-y-clun yn fwy.

14. "Byddai'n well gen i fyw mewn pentref sydd wedi'i orddatblygu na thref annatblygedig"
Pont-y-clun yw un o bentrefi mwyaf Cymru yn ôl poblogaeth gymunedol. Mae'r busnesau yn trosi miliynau o bunnoedd ac yn cyflogi miloedd o bobl. Mae gennym fwy o gyfleusterau cymunedol na llawer o drefi, a stryd fawr brysur sy'n haeddu cefnogaeth gyfartal ag a roddir i drefi cyfagos eraill gerllaw, megis Tonysguboriau.

15. Sut bydd hyn yn effeithio ar draffig? A fydd hyn yn dod â mwy o bobl i'r ardal?
Er y gallai'r potensial ar gyfer mwy o fuddsoddiad effeithio'n gadarnhaol ar nifer yr ymwelwyr â'r stryd fawr, gallai hyn fod trwy gyfuniad o drafnidiaeth gyhoeddus a'r defnydd o ffyrdd. Mae'r Cyngor yn delio â'r pryderon tagfeydd presennol ym Mhont-y-clun ar hyn o bryd, a theimlwn y bydd yr effaith statws tref ar draffig yn gyfyngedig iawn.

16. A fydd hyn yn golygu y bydd ein praeseptau cymunedol yn codi?
Na.

17. Beth yw'r pwynt felly?
Mae statws tref i Bont-y-clun yn golygu mwy o grantiau a chymorth i'r busnesau na allant eu cael heb i ni gael statws tref. Hefyd, mae CBS RhCT yn rhoi ystyriaeth arbennig i'r trefi tu mewn i'w ffiniau ac os ddown yn dref gallwn geisio manteisio ar y cymorth ychwanegol hwn. Er enghraifft mae RhCT yn ystyried darparu WiFi am ddim yng nghanol ei drefi.

Wrth i ni nesáu at ein pen-blwydd yn 175, rydym am gydnabod y Pont-y-clun fodern yn seiliedig ar ein cyfleusterau cymunedol, poblogaeth, statws fel tref bost a dylanwad economaidd yn ein rhanbarth.

18. Sut yn union gall y cyngor wneud i hyn ddigwydd?

Dechreuwyd y broses hon yn gynharach eleni pan sefydlwyd gweithgor (pwyllgor) i archwilio'r cysyniad hwn. Ers hynny, mae cynghorwyr wedi trafod manylion y broses ac wedi llunio'r cynnig hwn ar gyfer ymgynghoriad. Unwaith y bydd y cyfnod ymgynghori drosodd, bydd y Cyngor yn gwneud penderfyniad gan ystyried sylwadau trigolion a busnesau.

CYSYLLTWCH Â NI

Gallwch gysylltu â'r Cyngor trwy:



Ffôn 01443 238500



Post
Swyddfa'r Cyngor Cymuned
Heol yr Orsaf
Pontyclun
CF72 9EE



Ebst Clerk@pontyclun-cc.gov.wales



Facebook facebook.com/PontyclunCC



Trydar Twitter.com/PontyclunCC



Gwefan www.pontyclun.net